Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynllun Pwnc Busnes a Rheolaeth

Hydref 2017

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd–destun
Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae “Tuag at 2020 a thu hwnt” yn gynllun strategol sy’n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu’r Coleg http://bit.ly/2rtflxT.

Mae’r Cynllun Pwnc Busnes yn gosod yr egwyddorion a’r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Proses
Cam cyntaf y broses o lunio’r cynllun hwn oedd i sefydliadau addysg uwch ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae’r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno, ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.

Egwyddorion a Themâu
Tra oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o’r radd flaenaf i’r myfyrwyr sy’n dewis astudio o leiaf cyfran o’u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i’r egwyddor honno.

Strwythur y Cynllun
Mae’r Cynllun Pwnc Busnes yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o’r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi, a’r cyfleoedd a’r heriau sy’n benodol i’r maes Busnes a Rheolaeth.

Bu datblygiad sylweddol iawn o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Busnes dros y pum mlynedd ddiwethaf. Datblygodd Canolfan ABC (Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd), Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor eu darpariaeth a denu nifer cynaliadwy o fyfyrwyr drwy gyfuniad o gefnogaeth gyllidol gan y Coleg Cymraeg a buddsoddiad mewnol.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi cynnig darpariaeth ym maes Busnes, ond ailgyfluniwyd y ddarpariaeth yn 2017. Mae’r dystiolaeth ynghylch cynaliadwyedd y nifer o fyfyrwyr yn aneglur. Mae Prifysgol Caerdydd wedi dilysu gradd ‘Cymraeg a Busnes’ ar y cyd, ond ar hyn o bryd mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg y radd honno yn gorwedd oddi mewn i Ysgol y Gymraeg. Mae Prifysgol Bangor hefyd yn cynnig gradd ‘Cymraeg a Busnes’ ar y cyd.

Cynhaliwyd adolygiad o’r Cynllun Busnes dan gadeiryddiaeth yr Athro Dylan Jones Evans yn 2016. Un o gasgliadau’r adolygiad oedd taw tri lleoliad oedd yn gynaliadwy ar y pryd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Busnes.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol oddi fewn i'r Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg (e.e. drwy'r Cynllun Staffio). Mae cyfuniad o ffactorau'n effeithio ar ddyraniad grant pynciol ac a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2017, mae Canolfan ABC (sy'n cynnwys Prifysgol Met Caerdydd a Phrifysgol De Cymru) a Phrifysgolion Aberystwyth a Bangor yn cyrraedd meini prawf y Cynllun Academaidd. Yn unol â chasgliadau'r adolygiad a meincnodau'r Cynllun Academaidd, ni fydd mwy na thri lleoliad yn cael eu hystyried ar gyfer grantiau pynciol ar hyn o bryd.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17)			
Sefydliad Addysg Uwch	**Darpariaeth**	**Staff**	**Myfyrwyr[1]**
Prifysgol De Cymru (Canolfan ABC)	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	3 aelod o staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (rhan amser – CALl 1.5)	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 75 myfyriwr yn gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3
Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Canolfan ABC)	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	4 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, i gyd yn rhan-amser	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 160 myfyriwr yn gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3
Prifysgol Bangor	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	10 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (2 rhan-amser ac 8 yn llawn amser)	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 76 myfyriwr yn gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3
Prifysgol Aberystwyth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	4 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (1	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

[1] Gwybodaeth yn seiliedig ar y data HESA diweddaraf.

		rhan-amser a 3 yn llawn amser)	60 myfyriwr yn gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	*O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg*	*3 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg*	*Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg* *40 myfyriwr yn gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3*

Cyflwynwyd datganiad o ddiddordeb gan Brifysgol Abertawe, ond nodir nad oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd ac nad oes ychwaith gynlluniau i ddatblygu darpariaeth o'r fath. Cyflwynwyd gwybodaeth gan Brifysgol Caerdydd am radd cyfun Cymraeg a Busnes. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth Gymraeg ar y radd honno yn Ysgol y Gymraeg, er bod tri aelod o staff yn yr Ysgol Fusnes yn medru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol	
Profiad Myfyrwyr	Mae ystod o weithgareddau cwrs-gysylltiedig yn cael eu trefnu ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg gan gynnwys Heriau Menter, Teithiau Maes Tramor a gweithdai gyda phobl busnes lwyddiannus. Byddwn yn parhau i gefnogi digwyddiadau o'r fath yn ystod y cyfnod nesaf ac yn ehangu amrywiaeth y modiwlau Cymraeg sydd ar gael. Mae cyfnodau o brofiad gwaith dwyieithog ar gael i fyfyrwyr fel rhan o bob cwrs gradd a nodir uchod. Datblygir ar hyn gan fodiwlau megis modiwl Interniaeth Canolfan ABC lle y bydd myfyrwyr yn ennill credyd am weithio gyda chwmni lleol a modiwl Lleoliad Gwaith Prifysgol Bangor. Bydd profiad y myfyriwr yn cynnwys gweithio i fusnesau Cymreig a chyda hwy. Cred y Coleg Cymraeg Cenedlaethol bod astudio modiwlau Cymraeg yn fuddiol i ddatblygu sgiliau, dealltwriaeth ac amlochredd deallusol i brofiad academaidd y myfyriwr. Bydd y Cynllun yn parhau i ddatblygu a gwella systemau cofrestru di-ofyn i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith ar fodiwlau craidd Cymraeg. Bydd y Coleg yn annog a chefnogi myfyrwyr i fynychu digwyddiadau busnes cyfrwng Cymraeg (e.e. Cwlwm Busnes Caerdydd a Chymdeithas Cyfathrebwyr Cymru).
Darlithwyr	Mae amrediad o ddarlithwyr sy'n medru'r Gymraeg yn dysgu busnes a rheolaeth ar draws prifysgolion Cymru. Mae cryn dipyn o brofiad ymysg y darlithwyr a fu'n rhan o gynllun staffio'r Coleg Cymraeg, ac felly ceir sail gref i adeiladu arno ar gyfer y cyfnod nesaf. Serch hynny, cymharol brin yw'r myfyrwyr doethuriaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector ar hyn o bryd ac mae'r angen i gynyddu eu nifer yn flaenoriaeth yn ystod y cyfnod nesaf. Mae rhai prifysgolion wedi nodi angen penodol ym maes Cyllid a Chyfrifeg. Bydd angen ymdrech i ehangu a denu arbenigwyr a gweithredwyr i ddarlithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn gynnwys cynnig cytundebau i ddarlithio fesul awr, cael darlithwyr gwadd neu

	ddarlithwyr dan hyfforddiant. Bydd rhaglen i roi arweiniad i fyfyrwyr PhD Busnes ar sut i fod yn ddarlithwyr ac i gynorthwyo darlithwyr sy'n siarad Cymraeg ond sy'n gyndyn i ddarlithio yn yr iaith. Mae'r Cynllun Pwnc yn cydnabod yr angen am hyblygrwydd yn y maes.
Cwricwlwm	Mae cwricwlwm Busnes a Rheolaeth yn eang am ei fod yn cwmpasu meysydd megis Busnes, Rheolaeth, Rheoli Digwyddiadau, Cyfrifeg, Economeg, Cyllid, Twristiaeth, Marchnata, Trethiant, a Dulliau Meintiol ar gyfer Busnes a Bancio. Mae sawl modiwl yn gyffredin ar draws y cyrsiau hyn, a cheir enghreifftiau blaengar diweddar lle y mae eu cynnwys wedi ei deilwra'n benodol i'r cyd-destun Cymreig (e.e. Cyflwyniad i Entrepreneuriaeth). Bydd y Cynllun yn edrych ar ddatblygu modiwlau ar themâu megis yr Economi Gymreig, Twristiaeth ac Arwain a Rheoli yn y Gweithle, Marchnata, Rheoli Digwyddiadau, Cyflogadwyedd a maes Adnoddau Dynol. Mae darpariaeth ôl-raddedig cyfrwng Cymraeg bellach yn cael ei chynnig yn y maes a'r her yn y fan honno yw sicrhau nifer hyfyw o fyfyrwyr i astudio'r cyrsiau. Bydd y Cynllun yn edrych ar ymestyn cwmpas modiwlau'r prifysgolion i gynnwys ac apelio at bobl sydd eisoes yn y gweithle ac sydd angen hyfforddiant ac addysg bellach, sef gweithwyr yn sectorau Cymreig y gwasanaeth sifil, sefydliadau Cymreig a busnesau â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg. Bydd pwyslais o fewn modiwlau ar roi myfyrwyr mewn sefyllfaoedd lle y gofynnir iddynt ddatrys problemau, defnyddio rhesymeg a gwneud penderfyniadau. Bydd ymdrech i ddatblygu modiwlau hyblyg lle y gall unigolion sydd eisoes mewn gwaith astudio modiwl(au) rhan-amser Busnes a Rheolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
Canlyniadau Myfyrwyr	Mae canlyniadau'r myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cymharu'n ffafriol â myfyrwyr o fewn eu hadrannau / ysgolion. Gwelir hyn drwy ganlyniadau gradd ynghyd â'r nifer o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n ennill gwobrwyon am y myfyrwyr gorau / traethodau hir gorau. Bydd

	ymdrech i ddwyn sylw at ganlyniadau a llwyddiant myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddatblygu astudiaethau achos.
Adnoddau	Datblygwyd rhai adnoddau yn y maes yn y blynyddoedd diweddar, gan gynnwys e-lawlyfr ym maes Dulliau Ymchwil Busnes. Mae'r Panel Pwnc wedi adnabod yr angen i ddatblygu adnoddau pellach fel mater o flaenoriaeth ac mae E-Lawlyfr Cyflwyniad i Farchnata wedi ei gomisiynu gan y Coleg. Mae sawl fideo wedi ei ddatblygu er mwyn cyfoethogi'r dysgu, gan gynnwys cyfres o ddarlithoedd ym maes marchnata. Cyhoeddwyd cyfres o lawlyfrau yn yr 1990au y gellid eu diweddaru a'u haddasu ar gyfer cyfryngau cyfoes. Bydd blaenoriaeth i gynhyrchu llawlyfrau yn y meysydd a nodir yn y golofn 'Cwricwlwm'. Mae pwysigrwydd arbennig i hyn mewn maes fel Busnes a Rheoli lle nad oes traddodiad o ddarparu corpws helaeth o ddeunydd drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel prifysgol nac addysg bellach.
Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)	Mae cyflogadwyedd yn hollbwysig i unrhyw bwnc, ond yn enwedig mewn gradd fel Busnes a Rheolaeth. Cyflogadwyedd fydd blaenoriaeth holl gyrsiau gradd Busnes a Rheolaeth. Mae ymgysylltu â chyflogwyr a'r byd busnes yn gyffredinol yn treiddio trwy'r cyrsiau gradd ac mae graddedigion o'r maes yn llwyddo i ennill swyddi da ar ôl graddio. Wrth lunio neu ail-lunio cyrsiau, bydd darlithwyr y Coleg Cymraeg yn cysylltu â chwmnïau a busnesau Cymreig i weld beth y maent eu hanghen fel cyflogwyr oddi wrth raddedigion. Bydd hyn hefyd yn atgyfnerthu a bwydo i mewn i leoliadau profiad gwaith i'r myfyrwyr. Yn ôl Gyrfa Cymru, mae angen staff Gweinyddiaeth a Busnes ar bob math o gwmnïau, o weithgynhyrchu i ffermydd, o gwmnïau cyfreithiol i yswiriant, o fanwerthu i'r lluoedd arfog. Mewn llawer o fusnesau, rhoddir cyfle i weithio mewn amrywiol rannau eraill o gwmni, a fydd yn rhoi cyfle i ehangu sgiliau a gwybodaeth. Mae'r maes Gweinyddiaeth a Busnes yn cynnig llawer o lwybrau gyrfaol.

	Bydd y Coleg yn datblygu ymhellach ei ymgysylltiad â chyflogwyr yng Nghymru, a bydd Swyddog Datblygu'r Coleg yn cydweithio gyda'r Panel Busnes er mwyn adnabod cyfleoedd addas i rannu a datblygu gwybodaeth. Gall sefydliadau hefyd drefnu digwyddiadau penodol lle y gall myfyrwyr Busnes gyfarfod â darpar gyflogwyr sy'n chwilio am staff â'r sgiliau Cymraeg perthnasol.
Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)	Mae nifer dda o fyfyrwyr bellach yn astudio Busnes a Rheolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir sawl her mewn perthynas â datblygiad pellach i'r maes. Rhoddir blaenoriaeth i feithrin cysylltiadau a, thrwy waith arall y Coleg Cymraeg, i feithrin cyrsiau llawn neu rannol drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn colegau addysg bellach. Mae angen sicrhau bod y myfyrwyr hynny sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn astudio'n helaeth drwy gyfrwng y Gymraeg (h.y. 40 credyd neu fwy). Mae angen sicrhau llwybr dilyniant clir i astudiaethau ôl-raddedig. Mae angen sicrhau llwybrau dilyniant pwrpasol o astudiaethau Lefel 3 a graddau sylfaen hyd at raddau uwch ym maes Busnes a Rheolaeth, gyda phwyslais yn y man cyntaf ar sicrhau bod colegau addysg bellach mewn ardaloedd lle y mae canran uchel o siaradwyr yn siarad Cymraeg yn darparu cyrsiau Safon Uwch a BTEC busnes drwy gyfrwng y Gymraeg.

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol			
Nod gweithredu	**Targedau blwyddyn (2017/18)**	**Targedau 3 blynedd (2019/20)**	**Targedau 5 mlynedd (2021/22)**
1. Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd bob blwyddyn	125 myfyriwr	150 myfyriwr	175 myfyriwr
2. Cynyddu nifer y myfyrwyr PhD ym maes Busnes a Rheolaeth	O leiaf un PhD newydd bob blwyddyn	O leiaf dau PhD newydd bob blwyddyn	O leiaf dau PhD newydd bob blwyddyn
3. Darpariaeth Lefel 3 / Graddau Sylfaen	Datblygu perthynas ffurfiol â cholegau addysg bellach ac ysgolion	Cydweithio â cholegau addysg bellach, cyrff perthnasol eraill a CBAC er mwyn datblygu adnoddau i ddarpar fyfyrwyr gradd Gweithio gyda cholegau addysg bellach er mwyn sicrhau bod cyrsiau busnes yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	Adnoddau priodol wedi eu datblygu
4. Adnoddau	Gweithio ar e-lyfr 'Cyflwyniad i Farchnata'	Cyhoeddi e-lyfr 'Cyflwyniad i Farchnata'	Creu adnodd dysgu newydd ar gyfer cyrsiau gradd (e.e.

	Cytuno ar dermau cenedlaethol i'r maes	Dechrau'r gwaith o greu e-lyfrau eraill mewn meysydd perthnasol (e.e. Cyflogadwyedd, Rheolaeth a Chyllid)	Economi Gymreig, Twristiaeth, Arwain a Rheoli yn y Gweithle, Cyflogadwyedd a maes Adnoddau Dynol) Cwblhau o leiaf tri gwerslyfr academaidd
5. Datblygu Cwricwlwm Cymreig	Cynnal Her(iau) Menter Cynyddu nifer y modiwlau cyfrwng Cymraeg	Datblygu modiwl Cyllid / Cyfrifeg drwy gyfrwng y Gymraeg i'w rannu'n genedlaethol Datblygu modiwl Twristiaeth Datblygu modiwlau cyflogadwyedd Datblygu gweithdrefnau er mwyn cynnig darpariaeth atyniadol i bobl mewn gwaith sydd am ddatblygu eu gyrfa Cynnal digwyddiad cenedlaethol blynyddol Cynnal gweithdai cynefino a sgiliau iaith y cwrs Busnes i ddarlithwyr Cymraeg eu hiaith er mwyn magu hyder ynddynt i	Modiwlau Cyllid, Cyfrifeg, Twristiaeth, Economi Gymreig, Arwain a Rheoli yn y Gweithle, Cyflogadwyedd, ac Adnoddau Dynol Cyrsiau wedi eu teilwra ar gyfer myfyrwyr rhan-amser neu dros dro (e.e. pobl mewn gwaith sy'n dilyn modiwlau penodol fel rhan o ddatblygiad swydd) Proffil uwch i astudio Busnes a Rheolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gyd-weithio gyda sefydliadau allanol (e.e. Eisteddfod yr Urdd, Sioe Frenhinol) Cynnal digwyddiad cenedlaethol blynyddol.

		ddarlithio drwy gyfrwng y Gymraeg	

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol				
Sefydliad	**Nod gweithredu**	**Targedau blwyddyn (2017/18)**	**Targedau 3 blynedd (2019/20)**	**Targedau 5 mlynedd (2021/22)**
Prifysgol Aberystwyth	Myfyrwyr	O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
	Nifer y darlithwyr	4 aelod o staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (llawn amser a rhan-amser)	4 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	4 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg
	Modiwlau	Cyd-ddatblygu modiwl Cyllid / Cyfrifeg	Cynnal y ddarpariaeth	Cynnal y ddarpariaeth
Prifysgol Bangor	Myfyrwyr	O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

	Nifer y darlithwyr	8 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (llawn amser a rhan-amser)	8 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	8 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg Y Brifysgol i berchnogi a chynnal y ddarpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg Y Brifysgol i berchnogi a chynnal y ddarpariaeth
	Modiwlau	Cyd-ddatblygu modiwl Cyllid / Cyfrifeg	Cynnal y ddarpariaeth	Cynnal y ddarpariaeth
Prifysgol Met Caerdydd (Canolfan ABC)	Myfyrwyr	O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 20 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 25 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
	Nifer y darlithwyr	4 aelod o staff CALl (fel rhan o Ganolfan ABC). 2 aelod o staff fesul awr (fel rhan o Ganolfan ABC).	4 aelod o staff CALl (fel rhan o Ganolfan ABC). 3 aelod o staff fesul awr (fel rhan o Ganolfan ABC).	4 aelod o staff CALl (fel rhan o Ganolfan ABC). 4 aelod o staff fesul awr (fel rhan o Ganolfan ABC).

	Darpariaeth	O leiaf 80 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) O leiaf 20 credyd lefel sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) Cyrsiau byr hyfforddiant yn y gweithle (fel rhan o Ganolfan ABC)	O leiaf 80 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) O leiaf 40 credyd lefel sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) Cyrsiau byr hyfforddiant yn y gweithle (fel rhan o Ganolfan ABC)	O leiaf 80 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) O leiaf 40 credyd lefel sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) Cyrsiau byr hyfforddiant yn y gweithle (fel rhan o Ganolfan ABC)
	Modiwlau	Datblygu modiwlau newydd Marchnata ar gyfer Twristiaeth Lefel 5 a Rheoli Strategol Lefel 6	Datblygu modiwlau newydd Sgiliau Academaidd/Cymraeg Busnes	Datblygu modiwlau newydd ar gyrsiau Busnes a Rheolaeth Gymreig
Prifysgol De Cymru (Canolfan ABC)	Myfyrwyr	O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
	Nifer y darlithwyr	3 aelod o staff CALl (fel rhan o Ganolfan ABC)	4 aelod o staff CALl (fel rhan o Ganolfan ABC)	4 aelod o staff CALl (fel rhan o Ganolfan ABC)

		2 aelod o staff fesul awr (fel rhan o Ganolfan ABC)	3 aelod o staff fesul awr (fel rhan o Ganolfan ABC)	4 aelod o staff fesul awr (fel rhan o Ganolfan ABC)
	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) O leiaf 60 credyd ôl-raddedig drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) Cyrsiau byr hyfforddiant yn y gweithle (fel rhan o Ganolfan ABC)	O leiaf 60 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) O leiaf 90 credyd ôl-raddedig drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) Cyrsiau byr hyfforddiant yn y gweithle (fel rhan o Ganolfan ABC)	O leiaf 60 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) O leiaf 90 credyd ôl-raddedig drwy gyfrwng y Gymraeg (fel rhan o Ganolfan ABC) Cyrsiau byr hyfforddiant yn y gweithle (fel rhan o Ganolfan ABC)
	Modiwlau	Datblygu modiwlau newydd ôl-raddedig: Dulliau Ymchwil, Theorïau Rheoli ac Arwain, Traethawd hir	Datblygu modiwlau newydd Sgiliau Academaidd/Cymraeg Busnes	Datblygu modiwlau newydd ar gyrsiau Busnes a Rheolaeth Gymreig
Prifysgol DDS	*Myfyrwyr*	*O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg*	*O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg*	*O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg*

	Nifer y darlithwyr	*3 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn llawn amser*	*3 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn llawn amser*	*3 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn llawn amser*
	Darpariaeth	*O leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg*	*O leiaf 80 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg*	*O leiaf 120 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg*
	Modiwlau	*Cynhyrchu adnoddau dysgu*	*Cynhyrchu adnoddau dysgu*	*Cynhyrchu adnoddau dysgu*